**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO** |
| **PWNC:** | **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD IAU, 15 GORFFENNAF 2021 DYDD IAU, 15 GORFFENNAF 2021** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: J. HILL (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cross
M. Cook
G. L. Davies
P. Edwards
K. Hayden
S. Healy
W. Hodgins
J. C. Morgan
L. Parsons
G. Paulsen
K. Rowson
T. Smith
S. Thomas

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd yr ymddiheuriadau dilynol am absenoldeb:-<br><br>Cynghorydd H. McCarthy<br>Cynghorydd B. Willis | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **RHEILFFORDD CWM EBWY**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol parthed y prawf budd cyhoeddus, o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra caiff yr eitem hon o fusnes ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 1, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Nododd yr Aelod fod peth o'r wybodaeth eisoes yn y wasg er y nodwyd fod yr adroddiad wedi ei eithrio. Cydnabu'r Aelod y rheswm am yr eithriad, fodd bynnag teimlai oherwydd y materion sy'n cael eu hystyried ac er budd y cyhoedd na ddylai'r wybodaeth fod o natur eithriedig. Roedd yn bwysig fod y Cyngor yn agored a thryloyw gyda thrafodion o'r fath ac anghytunai'r Aelod gydag eithrio'r adroddiad.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr adroddiad gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Cyngor wedi ei eithrio ac ni allai roi sylw ar sut y mae'r wybodaeth yn y parth cyhoeddus. Mae'r adroddiad yn ystyried trefniant masnachol a manylion contract rhwng partïon unigol sydd yn gyfrinachol.<br><br>Codwyd pryder pellach nad oedd unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol yn y cyfarfod a'i bod yn hanfodol fod swyddog cyfreithiol yn bresennol pan gaiff materion o'r fath eu hystyried.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol am yr adroddiad sy'n rhoi manylion cytundeb y benthyciad, y risgiau a ddynodwyd a'r trefniadau contract a | |

chytuno cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru (Rheilffordd), Trafnidiaeth Cymru a'r Cyngor.

Ar y pwynt hwn gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau gan y Pwyllgor Craffu.

Cyfeiriodd Aelod at y costau a fanylir yn yr adroddiad a chadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw arian sydd ei angen i gefnogi cyllid arall.

Wedyn cyfeiriodd yr Aelod at yr adroddiad dechreuol a gyflwynwyd i'r Cyngor ym mis Mawrth 2021 a dywedodd y codwyd pryderon yng nghyswllt y cyllid arall a fedrai syrthio yn ôl ar drethdalwyr Blaenau Gwent a nododd y cafodd hyn ei drin erbyn hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Llywodraeth Cymru yn bellach yn cyflenwi unrhyw arian arall.

Mynegwyd pryderon gan nad oedd Aelodau wedi cael y dadansoddiad llawn o ddefnydd teithwyr ac os y byddai'r refeniw o'r trenau ychwanegol yn ddigonol ar gyfer y cynllun. Pe byddai'r cynllun hwn yn methu, teimlid y byddai'n risg i enw da y Cyngor a chynigiodd Aelod y dylid cyflwyno dadansoddiad llawn i Aelodau.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol na fyddai unrhyw risg i'r Cyngor gan fod y cynllun yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru. Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod risg genedlaethol yn dilyn COVID-19 am gydnerthedd trafnidiaeth gyhoeddus. Byddai'r trefniadau gweithio ystwyth y mae llawer o sefydliadau yn eu defnyddio bellach yn gweld pobl yn teithio ar adegau gwahanol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru yn gysurus gyda'r cynllun ac y cymerwyd unrhyw risgiau oddi ar yr Awdurdod Lleol. Roedd Llywodraeth Cymru yn gwybod fod llai o drenau ar reilffordd Cwm Ebwy na leiniau eraill a bod angen buddsoddiad i godi hwn i safon cymoedd eraill.

Mewn ymateb i bryder a godwyd yng nghyswllt y diffyg gwybodaeth a gyflwynwyd, dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod yr holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad. Yn nhermau nifer teithwyr, ni fyddai'r data yn gwneud gwahaniaeth i'r Awdurdod gan fod Llywodraeth Cymru yn

| | | |
|---|---|---|
| | fodlon gyda'r data ac mai bwriad Llywodraeth Cymru yw buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a mynd i'r afael ag ôl-troed carbon. Felly o safbwynt swyddogion, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr corfforaethol nag oedd unrhyw broblemau.<br><br>Codwyd pryderon eraill am yr wybodaeth wahanol a gyflwynwyd ym mis Mawrth a'r diffyg arian a adroddir yn awr ar gyfer dolen Abertyleri. Teimlid oherwydd y newid sylweddol hwn ei bod yn bwysig fod yr holl ddogfennau'n cael eu cyflwyno i ganfod sut y gwnaed y penderfyniadau hyn.<br><br>Teimlai Aelod arall fod yr Awdurdod wedi cymryd yr holl fesurau diogelu perthnasol a chroesawodd y gwelliant yn y gwasanaeth rheilffordd a chysylltedd i Gasnewydd. Roedd yr Aelod yn gwerthfawrogi pryderon yng nghyswllt arian a ddefnyddid ar gyfer y cynllun, fodd bynnag roedd yn hyderus na fyddai unrhyw faich yn cael ei roi ar Flaenau Gwent.<br><br>Yng nghyswllt dolen Abertyleri, dywedodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol na fu unrhyw newid yn y bwriad ar gyfer Abertyleri. Fel y manylir yn adroddiad ym mis Mawrth, gobeithir y caiff hyn ei gyflenwi os yw'r arian ar gael.<br><br>Ategodd Aelodau bryderon ei bod yn bwysig fod y ddogfen llawn yn cael ei chyflwyno gan y codwyd problemau gyda phrosiectau blaenorol lle nad oedd yr holl wybodaeth wedi ei chyflwyno i Aelodau. Nododd Aelod y diffyg teithwyr ar drenau a theimlai y byddai'n anodd llenwi 4 trên arall ac felly dylid cyflwyno'r data i roi'r sicrwydd hwnnw i Aelodau.<br><br>Croesawodd Aelod arall y cyfle i wella trafnidiaeth gyhoeddus a fyddai'n hwb i gymunedau Blaenau Gwent. Ategodd yr Aelod sylwadau'r swyddog a dywedodd nad oedd unrhyw risg i drethdalwyr Blaenau Gwent. Cytunodd Aelod arall gyda'r sylwadau a wnaed a nododd fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu i warantu'r arian.<br><br>Teimlai Aelod arall y dylid croesawu'r cyfle hwn gan y byddai'n gwella trafnidiaeth gyhoeddus i mewn ac allan o'r Fwrdeistref.<br><br>Cytunodd yr Aelod fod y cynllun yn gwella trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer cymunedau Blaenau Gwent, fodd bynnag teimlai'r Aelod ei bod yn bwysig fod y dystiolaeth ar sut y gwnaed y penderfyniad | |

ar gael i'w graffu gan Aelodau.

Nododd Aelod arall fod pob Aelod yn croesawu'r cynllun ac felly na ddylai fod unrhyw broblem pe cyflwynid yr holl ddogfennau.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr opsiynau i gael eu hystyried a chynigiwyd gwelliant i'r opsiynau.

Ar y pwynt hwn, cynigiwyd Opsiwn 3:-

Bod yr adroddiad yn cael ei ohirio nes y gellid cyflwyno'r dogfennau llawn i Aelodau er mwyn craffu'n llawn.

Eiliwyd y cynnig amgen.

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.
O blaid Opsiwn 3 a gynigiwyd – Cynghorwyr P. Edwards, M. Cross, K. Hayden, S. Thomas, J.C. Morgan, T. Smith

Yn erbyn Opsiwn 3 a gynigiwyd – Cynghorwyr J. Hill, G.A. Davies, G.L. Davies, S. Healy, W. Hodgins, G. Paulsen, L. Parsons, K. Rowson

Ni chariwyd y bleidlais ar y cynnig.

Wedyn cafodd Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) ei gynnig gan y Cadeirydd.

Eiliwyd y Cynnig.

Felly gofynnwyd am bleidlais wedi'i chofnodi.

Yn erbyn Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) – Cynghorwyr P. Edwards, M. Cross, K. Hayden, S. Thomas, J.C. Morgan, T. Smith

O blaid Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) – Cynghorwyr J. Hill, G.A. Davies, G.L. Davies, S. Healy, W. Hodgins, G. Paulsen, L. Parsons, K. Rowson

Cafodd y bleidlais ar Opsiwn 1 (opsiwn a ffafrir) ei chario.

Ni chaniatawyd i'r Cynghorydd M. Cook gymryd rhan yn y bleidlais gan iddo adael y cyfarfod cyn cynnig Opsiwn 3.

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw'r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 1 fel y'i manylir yn yr adroddiad. | |